Tourettes action

# TS A HAWLIAU ANABLEDD

**NID YW PAWB SYDD Â TS YN YSTYRIED BOD GANDDYNT ANABLEDD, GAN NAD YW EU SYMPTOMAU YN CAEL EFFAITH NEGYDDOL AR EU GALLU I WNEUD GWEITHGAREDDAU ARFEROL O DDYDD I DDYDD.**

*Nid yw pawb sydd â TS yn ystyried bod ganddynt anabledd, gan nad yw eu symptomau yn cael effaith negyddol ar eu gallu i wneud gweithgareddau dyddiol arferol.*

*Fodd bynnag, ystyrir bod TS yn anabledd o dan gyfraith y DU, sy'n atal pobl sydd â'r cyflwr rhag wynebu gwahaniaethu yn eu herbyn. Gall gwybod eich hawliau fel rhywun anabl eich cefnogi ym mhob rhan o'ch bywyd.*

*Rydym wedi amlinellu'r diffiniad o anabledd o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac wedi darparu rhestr o sefydliadau sy'n cynnig cyngor a gwybodaeth arbenigol ar hawliau anabledd.*

## DEDDF CYDRADDOLDEB

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn ddeddf Seneddol sy'n gwarchod pobl yn gyfreithiol rhag gwahaniaethu yn y gweithle ac yn y gymdeithas ehangach. Mae unigolyn yn anabl o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010 os oes ganddynt nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith niweidiol 'sylweddol' a 'hirdymor' ar eu gallu i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd.

### BETH MAE 'SYLWEDDOL' A HIRDYMOR' YN EU GOLYGU

- Mae '**sylweddol**' yn fwy na bychan neu ddinod – e.e. mae'n cymryd llawer hirach nag arfer i gwblhau tasg ddyddiol megis gwisgo amdanoch
- Mae '**hirdymor**' yn golygu 12 mis neu fwy – e.e. cyflwr anadlu sy'n datblygu o ganlyniad i haint ar yr ysgyfaint

Nid yw Deddf Cydraddoldeb 2010 yn berthnasol i Ogledd Iwerddon, i gael mwy o wybodaeth am hyn ewch i **wefan NI Direct.**

Ffynhonnell: **www.gov.uk**



Tourettes Action Factsheet - TS and Disability Rights Welsh v3.indd 1 10/06/2026 11:47

**T dyma chwe ffordd y gall cyflogwr wahaniaethu yn erbyn unigolyn sydd â TS, a nodir isod:**

## GWAHANIAETHU UNIONGYRCHOL

Mae unigolyn A yn gwahaniaethu'n uniongyrchol yn erbyn unigolyn B os:

- Yw A yn trin B yn llai ffafriol na fyddai A yn trin eraill; a
- Mae A yn gwneud hyn oherwydd anabledd B

## GWAHANIAETHU ANUNIONGYRCHOL

Mae unigolyn A yn gwahaniaethu'n anuniongyrchol yn erbyn rhywun arall (B) os yw A yn defnyddio Darpariaeth, Maen Prawf neu ymarfer ("PCP") sy'n gwahaniaethu mewn perthynas ag anabledd B. Bydd PCP yn gwahaniaethu mewn perthynas ag anabledd B os:

- Defnyddir y PCP gyda phawb ond yn rhoi neu byddai'n rhoi B a neu bobl sy'n rhannu anabledd B o dan anfantais arbennig o gymharu ag unigolion nad oes ganddynt yr anabledd, a
- Ni all ddangos bod cyfiawnhad dros y PCP, h.y. 'modd cymesur o gyflawni nod dilys

## PEIDIO Â GWNEUD ADDASIADAU RHESYMOL

**Rhaid i gyflogwr gymryd camau rhesymol i ostwng neu atal anfantais sylweddol i brofiadau gweithiwr anabl oherwydd eu nam. Mae hyn yn cynnwys:**

- Gwneud newidiadau pan fo'n rhesymol i osgoi anfanteision,
- Addasu'r gweithle i osgoi unrhyw anfantais (sicrhau bod y gweithle yn hygyrch i bawb), a neu
- Darparu cymhorthion neu wasanaeth atodol (e.e. meddalwedd cyfrifiadur).

Mae'r uchod yn ymwneud â gweithwyr a rhai sy'n ymgeisio am swyddi.

Nid yw'r uchod yn berthnasol os nad oedd y cyflogwr yn gwybod ac na ellir disgwyl yn rhesymol iddynt wybod bod gan B yr anabledd.

## GWAHANIAETHU OHERWYDD ANABLEDD

Mae unigolyn (A) yn gwahaniaethu yn erbyn rhywun anabl (B) os:

- Yw A yn trin B yn anffafriol yn sgil rhywbeth sy'n codi o ganlyniad i anabledd B, a
  - Ni all A ddangos bod y dull o drin yn ffordd gymesur o gyflawni nod dilys.

Nid yw'r uchod yn cydymffurfio os nad oedd y cyflogwr yn gwybod ac na ellir disgwyl yn rhesymol iddynt wybod bod gan B yr anabledd.

## AFLONYDDWCH

Mae'n aflonyddwch os yw unigolyn A yn dangos ymddygiad tuag at unigolyn B sy'n:

1. Ddigroeso, a
2. Yn ymwneud ag anabledd (yn gyffredinol)

Ac mae'r ymddygiad yn:

3. Ymyrryd ar urddas unigolyn B, a
4. Yn creu amgylchedd sy'n codi ofn, yn anghyfeillgar, israddol, bychanol neu sarhaus i'r dioddefwr

Nid oes angen i unigolyn A fod wedi bwriadu achosi pwyntiau 3 a 4 uchod i'w hymddygiad fod yn aflonyddu.



Tourettes Action © 2026

Tourettes Action Factsheet - TS and Disability Rights Welsh v3.indd 2 10/06/2026 11:47

Tourettes action

## ERLEDIGAETH

Ni ddylid trin unigolyn sydd ag anabledd mewn modd anffafriol gan gyflogwr am ddatgan eu hawliau o dan y Ddeddf Cydraddoldeb (h.y. unrhyw un o'r hawliadau uchod).

# ADNODDAU A GWYBODAETH DDEFNYDDIOL

**Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol:** yn darparu arweiniad ac arfer da i'ch helpu i ddeall a defnyddio cyfraith y Ddeddf Cydraddoldeb:

www.equalityhumanrights.com

**Gwefan y Llywodraeth:** yn darparu gwybodaeth am wahanol feysydd yn ymwneud â hawliau anabledd:

www.gov.uk/rights-disabled-person

**Llinell Gyngor Gwybodaeth Anabledd:** Mae dros 140 o linellau cyngor gwybodaeth anabledd yn lleol gyda staff sy'n anabl ac yn cynnig cyngor dros y ffôn. Os oes gennych linell leol, bydd wedi ei rhestru yn eich cyfeiriadur ffôn o dan DIAL UK. Neu, ewch i'w gwefan:

www.dialuk.info

Mae **Hawliau Anabledd y DU** yn sefydliad sy'n cael ei arwain, ei redeg a'i reoli gan bobl anabl, yn cynnig gwybodaeth a chyngor ar hawliau anabledd:

www.disabilityrightsuk.org



**TOURETTES ACTION**
The Meads Business Centre
19 Kingsmead
Farnborough, Hampshire
GU14 7SR

Elusen gofrestredig rhif 1003317

G // www.tourettes-action.org.uk
E // help@tourettes-action.org.uk

Tourettes Action Factsheet - TS and Disability Rights Welsh v3.indd 3 10/06/2026 11:47